

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 8 Ebrill, 2025.

Mae-r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn a J. Protheroe.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr J. Aviet, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy’n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain oddi wrth y Cynghorwyr C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd) a S.T. Wiliam.

COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2025 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

CHWARTER 3 MONITRO REFENIW 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet o 6 Mawrth, 2025 i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg. Pwrpas y cyfeiriad a'r adroddiad oedd cynghori'r Pwyllgor ar sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 3 ar gyfer 2024/25.

Trafododd y Rheolwr Gweithredol y sefyllfa gyffredinol, y defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn, y pwysau cost parhaus a oedd yn cael eu profi gan ysgolion, cyllidebau gofal cymdeithasol oedolion ac ar draws y gwasanaethau hynny yn uniongyrchol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, Gwasanaethau Cymdogaeth a Lleoedd, h.y. oherwydd effaith grymoedd y farchnad ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, costau ar gynnal a chadw ffyrdd, ac ati. Roedd hyn hefyd yn achosi oedi wrth gyflawni arbedion.

Fodd bynnag, roedd rhywfaint o liniaru i'r Gwasanaethau Cymdogaeth ynglŷn â'r incwm a oedd yn cael ei gynhyrchu trwy eu gwasanaethau gwastraff, fel ailgylchu a thrwy orfodi. Roedd Lleoedd ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'u harbedion o fewn blwyddyn ac roedd rhywfaint o warged cyllidebol yn cael ei adrodd ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a rhai cynlluniau eraill. Roedd grant cyflog Llywodraeth Cymru hefyd wedi helpu i wella'r sefyllfa ar draws cyllidebau pob gwasanaeth (y gwahaniaeth rhwng y dyfarniad cyflog wedi'i gyllidebu a'r dyfarniad cyflog gwirioneddol y cytunwyd arno).

Cyfeiriwyd at y diffyg ysgol a'r tynnu i lawr a ragwelir o gronfeydd wrth gefn hefyd.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd am statws cronfeydd wrth gefn y Gwasanaethau Cymdogaeth, gyda'r ateb nad oedd hyn yn arbennig o iach ar hyn o bryd, gydag ymrwymadau sylweddol tuag at gynlluniau cyfalaf. Roedd hyn oherwydd symud i ffwrdd o ddull cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar wasanaethau i un a oedd yn cyfateb cronfeydd wrth gefn â meysydd 'risg' a thrawsnewid, fel digideiddio, a'r meysydd hynny a allai weld oedi wrth gyflawni arbedion.

Gofynnodd y Cynghorydd Ernest am yr arbedion sy'n gysylltiedig â chael gwared ar gyfleusterau gwastraff penodol yn y Sir, ac a fyddai hyn yn effeithio ar y cronfeydd wrth gefn. Ar hyn o bryd, ni ellid gwneud unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â hyn, a byddai angen gwerthusiad pellach wrth fynd i'r flwyddyn ariannol newydd.

Trodd y Cynghorydd Protheroe at y gwaith sy'n cael ei wneud i liniaru defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn mewn gwahanol ffyrddau gwaith, fel y tasglu cyllidebau ysgolion a oedd yn edrych ar gontractau ysgolion a gwariant ar asiantaethau. Gofynnodd a oedd unrhyw ddiweddariadau. Oherwydd natur eang hyn, byddai'n dod o fewn cylch gorchwyl Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, lle byddai diweddariad yn mynd maes o law. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn, fel nodi adnoddau caffael a herio mewn ysgolion â diffyg a symudiad wrth ddatblygu'r ffyrddau gwaith.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad ac adroddiad Monitro Refeniw Chwarter 3 2024/25.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa Monitro

Refeniw yn ystod y flwyddyn yn Chwarter 3.

MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 RHAGFYR, 2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet o 6 Mawrth, 2025 i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg. Pwrpas y cyfeiriad a'r adroddiad oedd cynghori'r Pwyllgor ar gynnydd Rhaglen Gyfalaf 2024/25 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2024 i 31 Rhagfyr, 2024.

Tynnodd y Rheolwr Gweithredol sylw at wahanol agweddau, megis y llithriad a oedd wedi digwydd, gyda chyfanswm y rhaglen gymeradwy gyfredol yn £89.933m, gyda gwariant gwirioneddol hyd at 30 Medi 2024 yn £39m. Roedd disgwyl y byddai llawer mwy o wariant yn taro'r Rhaglen Gyfalaf erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyfeiriwyd hefyd at waith adnewyddu toiledau'r prosiect Y Pethau Pwysig fel enghraifft o gynllun cyfalaf a ddaeth yn uniongyrchol o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor. Roedd hyn wedi bod o fudd uniongyrchol i nifer o gyfleusterau toiledau ledled y Sir.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gwneud sawl cais am ddiwygiadau i'r Rhaglen Gyfalaf bresennol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel nifer o gynlluniau o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Roedd hefyd rywfaint o gario ymlaen ar rai cynlluniau, fel y Rhaglen Amnewid Cerbydau, diogelu'r arfordir a draenio tir, Gwydnwch Llifogydd Dinas Powys, mur cynnal Windsor Road, ymhlith eraill.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cynghorydd Ernest am y cyfeiriad at ysgolion Fictoraidd yn y Fro a disodli nwyddau dŵr glaw haearn bwrw gweddilliol yn yr adroddiad, a faint o ysgolion yr oedd hyn yn eu cynnwys. Esboniwyd y byddai ateb llawnach yn cael ei roi y tu allan i'r cyfarfod gan ei fod y tu allan i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn ac nad oedd yn cyfeirio at Ysgol Fictoria ym Mhenarth yn unig, ond at ystod eithaf eang o ysgolion, tua 23.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Drake at y llithriad ar osod seilwaith gwefru cerbydau a gofynnodd a oedd rhywfaint o hyn o ganlyniad i ymyrraeth neu ddifrod, fel y gwelwyd mewn lleoliadau fel Birmingham. Mewn ymateb, byddai mwy o wybodaeth yn cael ei cheisio, ond nid oedd unrhyw wybodaeth ar hyn o bryd i awgrymu bod hyn yn wir, neu fod y seilwaith wedi'i dargedu mewn rhyw ffordd.

O ran cwestiwn y Cynghorydd Protheroe ynglŷn â'r oedi wrth adolygu'r addasiadau cyflymder 20 mya yn ei hward lleol, esboniwyd bod tua 83 o strydoedd yn cael eu hadolygu yn y Fro ynglŷn â therfynau cyflymder a'r bwriad oedd cyflwyno adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf. Roedd y data yn cael ei gasglu ac roedd pob un o'r strydoedd a'r cynigion hyn yn cael eu hasesu. Roedd arian wedi cael ei roi i hyn gael ei weithredu yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Ernest yn teimlo nad oedd ymgynghoriad wedi bod ag Aelodau Ward lleol ynglŷn â'r addasiadau cyflymder 20 mya. Esboniwyd mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto ar beth fyddai'r argymhellion ar gyfer y strydoedd hynny a oedd wedi'u nodi, yr oedd y trigolion lleol wedi gwneud sylwadau arnynt, ac a oedd wedi'u hadolygu wedyn. Byddai'r rhain yn mynd trwy'r Cabinet a Chraffu a byddent yn ddarostyngedig i'r broses gorchymyn rheoleiddio traffig felly pe bai angen i'r Cyngor newid ardal o 20 mya i 30 mya neu i'r gwrthwyneb roedd proses ymgynghori briodol, yn cynnwys Aelodau Etholedig lle roedd effaith ar eu hwardiau. Roedd rhai Aelodau eisoes wedi gwneud sylwadau ar ardaloedd lleol yr oeddent yn dymuno gweld addasiadau cyflymder ynddynt.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad ac adroddiad Monitro Cyfalaf Chwarter 3 2024/25.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau'r Pwyllgor am y sefyllfa Monitro Cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn Chwarter 3.

CYNLLUNIAU CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD A THAI A LLE 2025/26 (GAN GYNNWYS GWEITHGAREDDAU, MESURAU PERFFORMIAD A THARGEDAU PERFFORMIAD CYSYLLTIEDIG) I GYFLAWNI VALE 2030, CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR 2025-30 (CAT / CL) –

Bwriadwyd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, i'r Aelodau ystyried y gweithgareddau a gynlluniwyd, y mesurau perfformiad a'r targedau perfformiad cysylltiedig yng Nghynlluniau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai a Lle 2025/26 (wedi'u hatodi yn Atodiad A, ynghyd â gwybodaeth atodol a ddarparwyd). Roedd Cynllun(iau) y Gyfarwyddiaeth yn cyd-fynd yn bennaf â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio. Roedd Cynlluniau'r Gyfarwyddiaethau eraill yn cael eu hystyried gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol ac roedd eu sylwadau a'u hargymhellion i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i ffurfio cyfeiriad cyfansawdd i'r Cabinet ar y pum Cynllun Cyfarwyddiaeth ar gyfer 2025-26. Roedd y dull hwn yn dilyn yn fras yr un a gymerwyd wrth graffu ar gynigion Cyllideb Refeniw a Chyfalaf y Cyngor. Byddai datganiad blynyddol newydd hefyd yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Cyngor a fyddai'n cael ei lywio gan ganfyddiadau Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor.

Roedd y pum Cynllun Cyfarwyddiaeth wedi'u llywio gan ymrwymadau'r Cyngor yn y Fro 2030, Cynllun Corfforaethol cymeradwy'r Cyngor (Cyngor Llawn, 10 Mawrth, 2025) ar gyfer y cyfnod 2025-30.

Roedd pob Pwyllgor Craffu wedi ystyried y Cynllun Corfforaethol drafft (Rhagfyr 2024) ac roedd eu barn nhw, ynghyd â barn ystod eang o randdeiliaid allweddol,

wedi llywio'r pum amcan llesiant newydd a'r 50 ymrwymiad a fanylwyd yn y Fro 2030, sef cynllun pum mlynedd.

Byddai datblygu'r gweithgareddau a'r targedau perfformiad cysylltiedig a amlinellir yng Nghynlluniau'r Cyfarwyddiaethau yn helpu i gyflawni rhwymedigaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gosododd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth ddyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas ag adolygu a gosod amcanion, cadw perfformiad dan adolygiad ac adrodd ar berfformiad, gyda ffocws ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Bro Morgannwg.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu adolygu Cynlluniau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai a Lle 2025/26 (gweithgareddau a gynlluniwyd a mesurau perfformiad arfaethedig a thargedau cysylltiedig) a sut y byddent yn cefnogi cyflawni'r ymrwymadau a'r canlyniadau yn y Fro 2030. Roedd gan Gynllun Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai 21 o gamau gweithredu, gyda Lle yn cynnwys 20 o gamau gweithredu a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Aelodau gyfeirio unrhyw sylwadau ac argymhellion ynghylch Cynlluniau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai a Lle 2025/26 at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i ffurfio cyfeiriad cyfansawdd i'r Cabinet ar y pum Cynllun Cyfarwyddiaeth ar gyfer 2025-26.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd ynglŷn â'r cyfeiriad at gau maes parcio Court Road, er nad oedd penderfyniad terfynol ar hyn ar hyn o bryd ac na fyddai'n cael ei symud ymlaen. Esboniwyd bod yr arbedion o fewn adroddiad y gyfarwyddiaeth wedi'u codi'n syth o'r adroddiad cyllideb beth amser yn ôl, ac felly byddai newidiadau dilynol, fel adroddiad pellach a phenderfyniad ar Court Road. Roedd rhan o'r arbedion a'r incwm ar gyfer codi tâl mewn meysydd parcio'n gysylltiedig â pharcio ar y stryd, a fyddai hefyd yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor. Roedd yr angen am arbedion o £2.3m yno o hyd, ac felly byddai angen ceisio'r rhain mewn mannau eraill, os na ellid eu cyflawni trwy'r cynnig i gau Court Road, ac ati.

Cododd y Cynghorwyr Champion, Ernest, Norman, Penn, Protheroe, y Cadeirydd ac eraill nifer o gwestiynau, sylwadau a phryderon ynglŷn â chael gwared ar finiau a mesurau glanhau strydoedd cysylltiedig, fel yr amlinellir yn y cynlluniau. Ymdriniwyd â'r rhain fel a ganlyn:

- Roedd nifer o finiau wedi'u gwaredu ar draws y Fro, ond nid oedd unrhyw effaith sylweddol wedi'i gweld (h.y. gyda chapasiti biniau ac amllder eu defnyddio), oherwydd bod gwaredu'r rhain wedi dileu dyblygu diangen mewn biniau a gwastraff neu gamddefnydd. Fel rhan o'r dull hwn, fodd bynnag, gwnaed ymdrechion i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ac annog ailgylchu, gan ddefnyddio pwerau statudol / gorfodi ond hefyd trwy ddull addysgol. Roedd gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol hefyd yn hanfodol, gan gynnwys defnyddio ymgyrchwyr sbwriel, gweithio gyda chymunedau, cynghorau cymuned lleol, cynrychiolwyr Cadwch Gymru'n Daclus, a gweithio gyda phartneriaid eraill.

- Pwysleisiwyd bod y mesurau hyn yn ymwneud ag ail-lunio'r gwasanaeth, ac, felly, yr angen i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac edrych ar fentrau oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, tra'n sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a bod gwasanaeth llawn yn dal i gael ei ddarparu. Hefyd, i edrych ar ddyluniad a lleoliad biniau i leihau tipio anghyfreithlon, yn ogystal â nodi personau sy'n gyfrifol am dipio anghyfreithlon.
- Byddai cael gwared ar y biniau gwastraff yn cael ei ategu trwy ddisodli'r rhain gyda rhai pwrpasol ar gyfer ailgylchu. Yn dilyn hynny, byddai'r mesurau'n cael eu hadolygu a byddai myfyrio arnynt cyn symud ymlaen ymhellach, mewn cysylltiad â staff 'ar lawr gwlad'.
- O ran rheoli gwastraff a darparu biniau mewn ardaloedd 'cyrchfan' neu 'dwristiaeth' y Fro, roedd yr ardaloedd hynny a nodwyd fel y cyfryw yn cynnwys Southerndown, Aberogwr, Ynys y Barri, Bae Jackson ac ati, yn enwedig yr ardaloedd hynny â nifer sylweddol o ymwelwyr yng nghyd-destun twristiaeth a gweld golygfeydd. Ni fyddai'r ardaloedd hyn yn gweld unrhyw ostyngiadau na newidiadau yn eu biniau, a phe bai trigolion yn gofyn i'r Aelodau am nifer y biniau, ac ati yn eu hardaloedd lleol, yna gellid cynnal arolwg i bennu unrhyw effaith ar y ddarpariaeth wastraff yn dilyn y gweithgareddau ail-lunio.
- Tynnwyd sylw ymhellach at rôl gwirfoddolwyr, yn enwedig mewn ardaloedd fel Aberogwr ac ardaloedd twristiaeth eraill, ac amlinellwyd lleoliad a chynnydd yn y defnydd o 'hybiau' Cadwch Gymru'n Daclus mewn mannau o'r fath ac mewn mannau eraill. Fel rhan o gynyddu ac ehangu nifer y gwirfoddolwyr sy'n helpu gyda rheoli sbwriel yn y Fro, roedd yn bwysig bod y Cyngor yn gwneud popeth a allai er mwyn helpu i gyflawni hyn drwy fwy o gefnogaeth a chymell trigolion i gymryd rhan yn y broses hon, fel gwella gwefan y Cyngor h.y. i wirfoddolwyr allu rhoi gwybod i'r Cyngor fod bagiau coch o sbwriel i'w casglu drwy'r wefan neu gais ar-lein. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r Cyngor yn cael swyddogion 'ymgysylltu' i wella gwefan y Cyngor drwy gael mwy o wybodaeth berthnasol am gasglu gwastraff ac i lawrlwytho 'pecyn cymorth'. Byddai mwy o gyswllt ac ymgysylltiad â thrigolion a gwirfoddolwyr ynglŷn â chasglu sbwriel / rheoli gwastraff, gan gynnwys 'diwrnodau agored' iddynt a gwobrwyo a chydabod eu hymrwymiad. Byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu am sut y gallai trigolion wirfoddoli a mabwysiadu stryd leol fel rhan o reoli gwastraff yn eu hardal leol, yn ogystal â phwy oedd eu hymgyrchydd sbwriel lleol a'u swyddog ymgysylltu.
- Cyfeiriwyd at fagiau du / coch a oedd yn cael eu casglu gan wirfoddolwyr a gofynnwyd beth oedd yn digwydd i'r rhain gan y gallent fod yn gymysgedd o wastraff i'w ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ac a allai gwirfoddolwyr gael bagiau gwastraff pwrpasol ar gyfer gwastraff i'w ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu yn lle hynny. Hefyd, ar gyfer biniau ailgylchu pwrpasol a oedd wedi'u gosod mewn gwahanol rannau o'r Fro, fel y Bont-faen, a ellid ychwanegu labelu cliriach at y rhain er mwyn atal cymysgu gwastraff a chamddefnyddio'r rhain. Esboniwyd bod y bagiau du / coch a oedd yn cael eu casglu a'u cymysgu â gwastraff cyffredinol yn mynd i'r safle adfer gwastraff yng Nghaerdydd i'w defnyddio fel rhan o greu ynni adnewyddadwy ac roedd ffactor ailgylchu o 20% a ddaeth yn ôl hefyd. Ers yr haf diwethaf bu treial i gasglu bagiau glanhau strydoedd a defnyddio'r cyfleuster ailgylchu newydd yn y Barri i helpu i dynnu'r holl ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu ohonynt.

Roedd hyn yn rhan o gyflawni'r gyfradd ailgylchu statudol uchel (70%) a chredwyd bod cyfradd ailgylchu o 72% o fewn y bagiau gwastraff strydoedd hynny, er bod y broses o dynnu'r gwastraff hwn yn gostus. Byddai'r biniau ailgylchu newydd yn helpu i fynd i'r afael â hyn, a'r nod oedd cael cyllid pellach er mwyn cynyddu nifer y biniau ailgylchu (a oedd hefyd â rhan gwastraff cyffredinol), er y byddai'r mater o gymysgu gwastraff yn anghywir yn parhau'n her.

Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe am y gostyngiad arfaethedig mewn glanhau cyfleusterau cyhoeddus a chyfeiriodd at fanteision y toiledau arfordirol sydd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar. Gofynnodd y Cadeirydd a yw'r cyfeiriad at ostyngiad mewn safonau gwasanaeth yn y cynlluniau yn ymwneud â hyn neu rywbeth arall. Esboniwyd bod hyn yn rhan o'r Rhaglen Ail-lunio ac roedd adolygiad o wasanaethau glanhau strydoedd ym mhob cyfleuster cyhoeddus yn y Fro, fel edrych ar yr oriau yr oedd y toiledau ar agor. Byddai hyn yn destun craffu a gwerthuso, ac nid oedd unrhyw gynllun i gau toiledau, yn enwedig mewn ardaloedd cyrchfan a thwristiaeth. Lle roedd yr ardaloedd hynny yn profi nifer uchel o ymwelwyr, y bwriad oedd parhau i gadw'r cyfleusterau ar agor yn ddiweddarach yn nosweithiau'r haf. Soniwyd am waith y prosiect Y Pethau Pwysig yn Llanilltud Fawr, Aberogwr a Southerndown. Gall ail-lunio safonau gwasanaeth olygu dull mwy cyffredinol, gyda glanhau / ysgubo strydoedd yn digwydd unwaith yr wythnos yn unig, i'w ategu gan, o bosibl, wirfoddolwyr lleol, ac ati.

Dywedodd y Cynghorydd Ernest y byddai'n fuddiol i'r canrannau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad gael eu meintioli neu eu cyfieithu'n werthoedd ariannol neu niferoedd neu feintiau perthnasol eraill lle roedd hynny'n berthnasol er mwyn i'r adroddiad fod mor glir â phosibl o ran yr hyn yr oedd y Cyngor yn ceisio ei gyflawni (fel gyda ffigurau sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a'r nifer yn fflyd cerbydau'r Cyngor a oedd ag allyriadau sero).

Cyfeiriodd y Cynghorydd Penn at y rhan o'r cynlluniau a oedd yn ymwneud â gweithio gyda rheoleiddwyr ar lygredd / gorfodi. Roedd o'r farn y dylai'r Cyngor fod yn cymryd trafodaethau / llinell gadarnach a defnyddio iaith gryfach gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru am ansawdd afonydd a dŵr, ac achosion cysylltiedig o lygredd. Gofynnodd y Cadeirydd pryd y byddai ymgysylltiad a diweddariadau pellach i'r Cyngor a'r Pwyllgor gan Dŵr Cymru. Byddai ymgysylltiad pellach yn digwydd ar ddiwedd y tymor ymdrochi. Roedd gwelliant bach wedi bod gydag ansawdd y dŵr ym Mae'r Tŵr Gwyllo. Byddai pwysau yn parhau i gael eu rhoi ar y cyrff cysylltiedig i sicrhau gwelliannau parhaus mewn ansawdd dŵr a byddai cynnal cysylltiadau gwaith da gyda'r cyrff hyn hefyd yn parhau, gan gynnwys presenoldeb uwch gynrychiolwyr o'r gwahanol gyrff yng nghyfarfodydd y Pwyllgor i gael diweddariadau pellach ar ansawdd dŵr ac ymgysylltiad.

Cododd y Cynghorydd Hooper sawl mater, gan gynnwys effaith adnoddau cyfyngedig ar yr adolygiad 20mya ac oedi gyda'r adolygiad parcio ceir ar Ynys y Barri. Gofynnodd a oedd digon o adnoddau i sicrhau y gellid gweithredu'r holl bwyntiau a godwyd yn y cynlluniau. Mewn ymateb, esboniwyd bod yr adolygiad 20mya yn ymgymeriad mawr gan dîm rheoli traffig cymharol fach ac felly byddai'r cynnydd yn araf. Roedd y Cyngor yn edrych i recriwtio staff ychwanegol ar adegau brig o'r fath, ond roedd y rhain yn swyddi lle roedd y sgiliau angenrheidiol yn

gymharol brin, gyda dim ond nifer fach o beirianwyr traffig medrus addas ar gael. O ran y cyfnodau arferol o weithgarwch, roedd y lefelau staffio presennol yn briodol, ac nid oedd y gyllideb ar gael i gefnogi lefel uwch o staffio. Cyfeiriwyd at y llwyth gwaith uchel yn y tîm ar hyn o bryd hefyd fel y rheswm dros yr oedi yn yr adolygiad o'r cynllun parcio preswyl presennol yn Ynys y Barri.

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper wedyn am y prosiectau Y Barri - Creu Tonnau a Ffyniant Bro (FfB) ac yn benodol am y dyfarniad Cynllun ar gyfer Cymdogaethau (CC) gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â'r cyfeiriad yn y cynlluniau at adnoddau ychwanegol. Roedd eisiau gwybod am darddiad neu ffynhonnell y cyllid ychwanegol hwn, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau i'r prosiectau a'r adolygiad o'u hadnoddau. Esboniwyd y byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu tynnu o wahanol ffrydiau cyllid, gydag elfennau o CC a FfB yn cael eu nodi'n benodol ar gyfer costau wrth gefn ac ymgynghori allanol, yn ogystal ag arbenigedd neu adnoddau arbenigol tebyg i helpu i adeiladu capasiti, i weithio gyda phartneriaid ac i helpu i ddod â'r prosiectau hyn ymlaen. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a Chraffu yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau a'r iteriad blaenorol o'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi, ar ôl i'r canllawiau perthnasol gael eu derbyn yn llawn.

Gofynnodd y Cadeirydd am y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi a pha wybodaeth oedd ar gael am amserlenni ar gyfer datblygu'r Bwrdd Trefi a chyflwyno ei iteriad presennol. Esboniwyd bod cyfarfod wedi cael ei gynnal tua phythefnos yn ôl, ynglŷn â'r Bwrdd Trefi, a sut i symud ymlaen. Byddai mwy o wybodaeth am yr hyn yr oedd llywodraeth ganolog yn ei fwriadu i hyn weithio yn y 12 mis nesaf. Byddai'r brif gyfran o gyllid yn dechrau ymddangos yn 2026/27, gyda rhywfaint o gyllid yn 2025/26 hefyd. Byddai mwy o wybodaeth ac adroddiadau yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor maes o law.

Yn dilyn y pwyntiau a'r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor, fe'i gwnaed wedyn

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo Cynlluniau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai a Lle (Atodiad A) a'r mesurau a'r targedau perfformiad cysylltiedig ar gyfer 2025/26 sydd wedi'u cynnwys ynddynt, gyda'r sylwadau a'r safbwyntiau canlynol a wnaed gan y Pwyllgor i'w cyfeirio at swyddogion perthnasol y Cyngor a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, fel y bo'n briodol:

- Byddai'n ddefnyddiol i'r canrannau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad gael eu meintoli neu eu trosi i werthoedd ariannol neu rifau neu feintiau perthnasol eraill lle bo hynny'n berthnasol er mwyn i'r adroddiad fod mor glir â phosibl o ran yr hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni;
- Croesawyd y cynlluniau ynghylch cefnogi a defnyddio gwirfoddolwyr. Fel rhan o hyn, dylai'r Cyngor ystyried annog, cefnogi a chymell trigolion lleol i ddod yn wirfoddolwyr er mwyn helpu i gyflawni gweledigaeth y Cyngor;
- Nododd y Pwyllgor yr heriau ynghylch adnoddau a'r effaith bosibl y gallai'r rhain ei chael ar Gynlluniau Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Thai a Lle, ac, fel rhan o hyn, gofynnwyd i swyddogion y Cyngor barhau i hysbysu a diweddarau Aelodau Etholedig ar gynnydd ac oedi ynghylch y rhain drwy'r broses Graffu.

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau bod cymeradwyaeth y Pwyllgor i'r gweithgareddau arfaethedig, mesurau cysylltiedig a thargedau perfformiad ar gyfer Cyfarwyddiaethau'r Amgylchedd a Thai a Lle fel y manylir arnynt yn y Cynlluniau, ac i'r sylwadau a'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor ar y rhain, yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau er mwyn i ymateb cyfansawdd gael ei ddatblygu a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet.